Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Ymateb Medr i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ‘Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16’

27 Ionawr 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Llywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16'

### Cyflwyniad

Mae Medr yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ar 12 Tachwedd 2025, yn cynnwys 16 o argymhellion. Rydym yn derbyn y canfyddiadau a'r argymhellion fel y maent yn berthnasol i Medr.

Yn rhinwedd ei rôl fel stiward cenedlaethol addysg a hyfforddiant drydyddol yng Nghymru, mae Medr yn ymrwymedig i ddatblygu system addysg drydyddol lle y gall pawb ddysgu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.[1] Rydym yn cydnabod y bydd llwybrau dysgu cydlynus y mae'n hawdd ymdrin â hwy a hyblygrwydd gwell yn hwyluso cyfranogiad a chyfraddau cadw uwch ac yn rhoi mwy o fynediad i ddysgwyr at gyfleoedd sy'n eu galluogi i ffynnu.

Mae creu Medr, a'r ymrwymiadau rydym wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol, yn cyfrannu at wneud llwybrau dysgwyr yn symlach ac yn fwy hyblyg. Mae Dyletswydd Strategol ar Medr i hyrwyddo dysgu gydol oes ac ehangu cyfranogiad ym mhob rhan o'r sector ôl-16, gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau, dysgu oedolion a'r gymuned, addysg uwch, a dysgu seiliedig ar waith. Oherwydd y cylch gwaith eang hwn, mae Medr yn rhan ganolog o'r ymdrechion i gyflawni uchelgeisiau'r adroddiad i greu sector ôl-16 cydlynol a chydweithredol sy'n annog dysgwyr i gael addysg a meithrin sgiliau drwy ba bynnag lwybrau addysgol sy'n iawn iddyn nhw.[2] Byddwn yn gwneud hynny drwy gysoni ein fframweithiau rheoleiddio a chyllido, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ym mhob rhan o'r sector ôl-16 i greu sector lle y gall dysgwyr symud yn hyderus rhwng llwybrau a manteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd da.

Yn ein rôl i oruchwylio system addysg drydyddol gydgysylltiedig, rydym yn ymrwymedig i feithrin dealltwriaeth o ymddygiad a phenderfyniadau dysgwyr, gan gynnwys drwy ddefnyddio data'n effeithiol, er mwyn i ni allu adnabod y ffactorau sy'n ysgogi dewisiadau dysgwyr a datblygu dirnadaeth gadarn o deithiau dysgwyr ym mhob rhan o'r system. Rydym eisoes yn gwneud gwelliannau i ehangder ac amseroldeb y data a gyhoeddir gennym a, thrwy ein Cynlluniau Strategol a Gweithredol, rydym wedi ymrwymo i atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i waith datblygu polisïau a stiwardio'r system. Yr hyn sydd wrth wraidd y gwaith hwn yw ein hymrwymiad i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella ehangder ac amseroldeb data ymhellach, gan sicrhau eu bod yn cefnogi system addysg drydyddol sy'n fwy cydlynol, yn fwy ymatebol, ac yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr.

Mae'r ymateb hwn yn amlinellu'r camau rydym wrthi'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau mewn perthynas â data, cyllid a diwygio polisïau. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth

[1] Nod Strategol 2, Cynllun Strategol Medr 2025-2030

[2] **Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol gadarn, gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n cynnwys llwybrau i gyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dylai'r strategaeth gwmpasu llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan greu gweledigaeth strategol ar gyfer sector ôl16 cydlynol a chydweithredol sy'n annog dysgwyr i gael addysg a meithrin sgiliau drwy ba bynnag lwybr addysgol sy'n iawn iddyn nhw.**

Cymru lle y gellir disgwyl i Medr gyflawni rôl. Nodir ein cyfraniadau at yr argymhellion hyn isod.

**Ymateb i Argymhellion ar gyfer Medr**

**Argymhelliad 10:**

**Dylai Medr wella ansawdd ac amseroldeb y data cyhoeddedig am addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 a 18 oed, mewn ymateb i'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Medr roi sylw arbennig i:**

- **ddata sy'n dilyn llwybrau dysgwyr ar bob cam ar ôl iddynt adael blwyddyn 11, i helpu i ddeall dewisiadau dysgwyr a ble, pam a phryd y gallai dysgwyr fod yn gadael neu'n rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant; a**
- **data am ddysgwyr mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith, yn enwedig dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau lefelau 1 a 2, gan gynnwys cyrchfannau ar gyfer y rhai ar gyrsiau blwyddyn**

**Derbyn**

Ar hyn o bryd, mae Medr yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar y system addysg drydyddol. Ein nod yw cyhoeddi'r wybodaeth hon mor amserol â phosibl ac ystyried anghenion defnyddwyr wrth ddatblygu ein hystadegau.

Pan ffurfiwyd Medr ym mis Awst 2024, gwnaethom etifeddu nifer o swyddogaethau data. Ers hynny, rydym wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i ehangder ac amseroldeb y data a gyhoeddir gennym, er enghraifft:

- Ym mis Chwefror 2025, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol rhwng mis Awst 2017 a mis Ionawr 2025. Rydym yn bwriadu diweddaru'r dadansoddiad hwn bob blwyddyn.
- Byddwn yn cyflwyno arfer newydd o gyhoeddi data dros dro cynharach ar gyfer dysgwyr a gofrestrir mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion a'r gymuned. Caiff data dros dro ar gyfer 2025/26 eu cynnwys yng nghyhoeddiad mis Chwefror 2026.
- Rydym wedi gwneud gwelliannau o ran amseroldeb data mewn cyhoeddiadau ar ddysgwyr sy'n dechrau ar brentisiaethau drwy ddefnyddio cipluniau data cynharach ar gyfer y cyhoeddiadau hynny.
- Hefyd, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o gyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn ddiweddar.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag UCAS er mwyn sicrhau y caiff ei ddata ar geisiadau addysg uwch eu defnyddio'n briodol.

Mae ein Cynlluniau Strategol a Gweithredol yn cynnwys ymrwymiadau i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n seiliedig ar ddata.[3] Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn datblygu mesur dilyniant er mwyn dilyn taith dysgwyr wrth iddynt symud rhwng sectorau, lefelau a rhaglenni astudio. Bydd hyn yn rhoi syniad mwy amserol o ddilyniant yn y system addysg drydyddol na'r hyn a geir gan ein hystadegau presennol ar gyrchfannau dysgwyr.

Rydym yn gweithio i ddatblygu'r ffordd y caiff ein data eu cyflwyno er mwyn eu gwneud yn gliriach ac yn haws eu deall, a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar gynnwys dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 14:**

**Dylai Medr weithio gyda Colegau Cymru i ganfod y bylchau yn y data am ddysgwyr mewn colegau AB (megis eu cyrchfannau ôl-18), a chymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny drwy ddatblygu set ddata fanwl gywir, amserol a dibynadwy gyda'r nod o'i rhyddhau'n flynyddol erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2025/26.**

**Derbyn**

Fel yr amlinellir uchod yn ein hymateb i Argymhelliad 10, rydym yn ymrwymedig i wella ehangder ac amseroldeb ein data.

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o gyrchfannau dysgwyr ôl-16 ym mis Rhagfyr 2025. Ceir oedi cynhenid cyn i'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi oherwydd y prosesau paru data cymhleth sy'n angenrheidiol er mwyn eu cyfrifo. Bydd datblygu ystadegau mwy amserol ar ddilyniant addysgol (y cyfeirir atynt yn ein hymateb i Argymhelliad 10) yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Er mai ein blaenoriaeth bob amser yw sicrhau allbwn ystadegol cadarn a chywir, byddwn yn parhau i weithio i wneud gwelliannau o ran amseroldeb ein holl gyhoeddiadau yn y dyfodol lle bynnag y bo modd. Fel rhan o'n prosesau ar gyfer datblygu'r ystadegau sydd eisoes ar gael, yn ogystal â datblygu rhai newydd, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Colegau Cymru ond heb fod yn gyfyngedig i'r corff hwnnw.

**Argymhelliad 15:**

**Fel rhan o'i ddull o ddatblygu fframwaith gradd-brentisiaethau i'w weithredu o fis Awst 2027 ymlaen, dylai Medr gynnal asesiad o fanteision neu anfanteision y canlynol mewn perthynas â chynyddu nifer y gradd-brentisiaethau sydd ar gael:**

- **cyflogwyr yn cyfrannu at gost ffioedd dysgu gradd-brentisiaethau, ochr yn ochr â'r cyflog y maent yn ei dalu i'r prentis; a**

[3] *Byddwn yn pennu data sylfaenol er mwyn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ein hunain ac ar gyfer llywio polisïau'r llywodraeth. Yn seiliedig ar ddata, a thrwy gydweithio â rhanddeiliaid, byddwn yn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â cherrig milltir cenedlaethol (Cynllun Strategol, Ymrwymiad Sefydlu)*

- **rhoi’r ymreolaeth i sefydliadau AU ddatblygu gradd-brentisiaethau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru**

**Derbyn**

Ar hyn o bryd, mae Medr yn datblygu Rhaglen Brentisiaethau newydd a fydd yn dechrau yn mis Awst 2027 ac a fydd yn cynnwys prentisiaethau ar bob lefel, gan gynnwys gradd-brentisiaethau. Bydd y rhaglen newydd yn fwy ymatebol a hyblyg er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau o ran sgiliau mewn ymateb i'r newidiadau yn ein heconomi. Mae Medr yn gweithio i ddarganfod sut y gall y rhaglen ymateb yn ystwyth i ofynion sy'n newid er mwyn sicrhau y caiff y cymwysterau a'r sgiliau cywir eu cyflwyno i ddiwallu anghenion cyflogwyr, anghenion dysgwyr ac anghenion economaidd, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng prentisiaethau a gynigir ar wahanol lefelau. Gwnaethom ymgynghori'n eang ar y rhaglen newydd yn ddiweddar. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2026. Mae model cyllido wedi'i ddiweddaru yn elfen allweddol o'r gwaith i ddatblygu'r rhaglen newydd. Wrth ystyried y potensial i gyflogwyr gyfrannu at radd-brentisiaethau, byddwn yn ystyried canlyniadau galwad Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ynghylch cyfranogiad a chynaliadwyedd mewn addysg drydyddol. Rydym hefyd yn ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn deall y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu mewn perthynas â darparu prentisiaethau.

Medr, yn rhinwedd ei rôl fel yr Awdurdod Dyroddi dynodedig, sy'n gyfrifol am ddatblygu a dyroddi fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Er mwyn cael ei hystyried yn Brentisiaeth Gymreig, rhaid i ddarpariaeth fod wedi'i chynnwys o fewn fframwaith cyhoeddedig. Caiff pob fframwaith ei ddatblygu a'i brofi mewn cydweithrediad ag arbenigwyr mewn diwydiant, darparwyr dysgu neu brifysgolion a rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion economi Cymru, gyda gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a chefnogaeth gan gyflogwyr yn tystio i hynny, a'i fod hefyd yn bodloni gofynion Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru. Ar hyn o bryd, ceir cyfanswm o 23 o fframweithiau prentisiaeth rhwng pob sector, ac mae gan Medr raglen barhaus o adolygiadau fframwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Bydd pob adolygiad yn ystyried a yw'r fframwaith yn cynnwys llwybrau a llwybrau dilyniant priodol, gan gynnwys i lefel gradd. Ychwanegwyd gradd-brentisiaethau at y fframwaith adeiladu yn 2024/25, gan ehangu'r amrywiaeth o fframweithiau lle mae darpariaeth gradd-brentisiaethau ar gael. Bydd llwybr gradd adeiladu newydd mewn Dylunio yn dechrau ym mis Medi 2026. Mae cynnal rhaglen barhaus o adolygiadau fframwaith yn elfen allweddol o sicrhau bod y rhaglen brentisiaethau newydd yn ymatebol ac yn ystwyth.

## Ymateb i Argymhellion lle y gall Medr wneud Cyfraniad

**Argymhelliad 1:**

**Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol gadarn, gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 sy’n cynnwys llwybrau i gyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dylai’r strategaeth gwmpasu llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan greu gweledigaeth strategol ar gyfer sector ôl16 cydlynol a chydweithredol sy’n annog dysgwyr i gael addysg a meithrin sgiliau drwy ba bynnag lwybr addysgol sy’n iawn iddyn nhw.**

Bydd Medr yn parhau i weithio i ddatblygu sector ôl-16 mwy cydlynol a chydweithredol yn unol â'n dyletswyddau strategol drwy gysoni ein fframweithiau rheoleiddio a chyllido er mwyn cefnogi system ôl-16 sy'n fwy integredig ac sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd angen cydweithio gwirioneddol ym mhob rhan o'r sector, ac rydym yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau y caiff diwygiadau eu llywio gan ddirnadaeth ymarferol a'r blaenoriaethau cyffredin a nodir yn yr adroddiad.

Hefyd, mae Medr wedi cynnal ymarfer mapio cynhwysfawr o ddarpariaeth addysg uwch yn ddiweddar, sy'n rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol ac a fydd yn sail ar gyfer ein hymateb i'r alwad am dystiolaeth ynghylch cyfranogiad a chynaliadwyedd ariannol gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.

Mae Medr yn parhau i gyfrannu at Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ystyried blaenoriaethau ar gyfer strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i Gymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3:**

**Dylai Llywodraeth Cymru ehangu’r cynllun Prentisiaethau Iau i sicrhau ei fod ar gael i ddysgwyr ledled Cymru sydd mewn perygl o ymddieithrio o’u haddysg. Wrth wneud hynny, dylai fynd i’r afael â phryderon Estyn ynghylch Prentisiaethau Iau, gan gynnwys y pryderon ynghylch anghysondebau yn y meini prawf atgyfeirio, yn y wybodaeth a ddarperir i rieni ac mewn prosesau sicrhau ansawdd; a sicrhau bod mesurau diogelu cadarn wedi’u hymgorffori yn y rhaglen i amddiffyn dysgwyr 14-16 oed wrth iddynt gael addysg mewn lleoliad ôl-16.**

### Ehangu'r rhaglen Prentisiaethau Iau

Yn unol â'n Dyletswydd Strategol i annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol, llwyddodd Medr, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r sector, i ehangu darpariaeth Prentisiaethau Iau i ddau goleg pellach yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Mae Prentisiaethau Iau yn cynnig llwybr ystyrlon at addysg bellach, prentisiaethau a chyflogaeth i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg. Mae saith coleg ledled Cymru bellach yn cynnig y ddarpariaeth hon. Roedd hyn

yn bosibl i raddau helaeth oherwydd y £200k ychwanegol (gan gynyddu'r cyfanswm i £600k) a fuddsoddodd Llywodraeth Cymru yn y rhaglen ar gyfer 2025/26.

Bydd Medr yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a cholegau addysg bellach ar barhau i ehangu'r rhaglen Prentisiaethau Iau, gan sicrhau bod mwy o ddarpariaeth a dewis ar gael i ddysgwyr ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny y mae'n heriol iddynt ymwneud â llwybrau traddodiadol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllideb fwy o £1m er mwyn cefnogi'r ehangu pellach hwn yn 2026/27. Fodd bynnag, er mwyn mabwysiadu hyn ledled y wlad, byddai angen cynnydd pellach yn y gyllideb.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig llwybrau clir i ddysgwyr ar brentisiaethau iau symud ymlaen i ddysgu pellach, gan gynnwys prentisiaethau ar lefel uwch, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen (gweler isod).

**Pryderon a godwyd gan Estyn**

Mewn ymateb i argymhellion Estyn ynghylch mynd i'r afael ag anghysondebau o ran meini prawf atgyfeirio, sicrhau ansawdd, y wybodaeth a roddir i rieni, a mesurau diogelu, mae Medr wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a cholegau i ddatblygu dogfen ganllawiau sy'n dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r canllawiau'n annog colegau addysg bellach, ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau proses ddethol gadarn sy'n cynnwys penderfynu ar allu dysgwr i ymgymryd â dysgu galwedigaethol. Hefyd, mae'r Meini Prawf Mynediad a Chymhwysedd Dysgwyr yn nodi ei bod yn rhaid i'r broses ddethol ystyried a yw'r dysgwyr mewn perygl o fynd yn NEET ac yn debygol o gael budd o'r ddarpariaeth hon.

O ran pryderon Estyn ynglŷn â sicrhau ansawdd, mae canllawiau Medr yn nodi y dylai colegau addysg bellach gyflwyno data amserol i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unol ag Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16 2022. Mae'r adran ar ofynion cyflwyno data yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sicrhau y caiff data eu cyflwyno yn y fformat cywir ac yn amserol, yn unol â'r amodau a nodir yn y Telerau ac Amodau Cyllid blynyddol.

Bydd Medr yn defnyddio data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro data a setiau data gweithgarwch y rhaglen er mwyn sicrhau bod gofynion cyflwyno'r rhaglen yn cael eu bodloni. Ar hyn o bryd, mae Medr yn gweithio i ddatblygu mesurau perfformiad sy'n cynnwys cyrchfannau dysgwyr gan y bydd hyn yn hollbwysig wrth werthuso'r ffordd y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith. Nod y ddarpariaeth hon yw galluogi dysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglen Prentisiaethau Iau yn llwyddiannus i symud ymlaen i ddysgu pellach, prentisiaeth neu gyflogaeth yn 16 oed.

Mae'r canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i golegau rannu gwybodaeth â dysgwyr, rhieni ac ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o addasrwydd cyrsiau unigol, gan ochel rhag stereoteipiau rhywedd traddodiadol a gweithio i'w goresgyn. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gydweithio â'r coleg er mwyn sicrhau bod darpar ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cael cyngor ac arweiniad diduedd a chynhwysfawr ar yr holl opsiynau cwricwlwm a fyddai'n briodol i'r dysgwr unigol, yn ogystal â Phrentisiaethau Iau, lle y bônt ar gael.

Bydd angen i golegau gynnal asesiadau risg unigol cadarn, gan gynnwys asesiadau risg gweithredol, ac egluro'r cyfrifoldeb am drefniadau diogelu ar gyfer yr holl ddysgwyr gan ddilyn 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion Cymru Gyfan 2008' a 'Chanllawiau Dyletswydd Prevent 2015' wrth ddelio â datgeliadau, pryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelwch, lles a llesiant. Mae hyn yn cynnwys unrhyw leoliadau profiad gwaith a drefnir gan y coleg. Mae'r canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am asesiadau risg gweithredol ar gyfer dysgwyr â chofrestriad deuol, ac i awdurdodau lleol roi cymorth ac arweiniad mewn perthynas ag unrhyw fater diogelu na ellir ei ddatrys rhwng yr ysgol a'r coleg.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Estyn.

**Argymhelliad 5:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Medr, gynnal adolygiad o gyllid a deddfwriaeth ôl-16 i archwilio:**

- **a yw'r system gyllido bresennol yn cymell cystadleuaeth rhwng darparwyr sy'n effeithio ar natur ddiduedd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr, ac i ba raddau y mae hynny'n digwydd;**
- **sut y mae ysgolion a cholegau unigol wedi goresgyn heriau cyllido er mwyn cydweithio'n effeithiol;**
- **a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r system gyllido ôl-16 a'r ddeddfwriaeth i ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau ôl-16 (e.e. drwy roi'r gorau i ddefnyddio model cyllido yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion, drwy ddarparu cyllid grant i wobrwyo cydweithio, neu fel arall)**

Mae'r sector addysg drydyddol yn amrywiol, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein polisïau a'n cyllid yn creu system sy'n meithrin cydweithio ac yn galluogi mwy o gyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei botensial. Mewn ymateb i ddyletswydd strategol Medr i hyrwyddo cydweithio a chydlyniant mewn addysg drydyddol ac ymchwil, mae gennym raglen waith ar y gweill sy'n cyd-fynd â'r argymhelliad hwn. Daw darpariaethau llawn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i rym dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bydd hynny'n ein helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Yn ein Cynllun Gweithredol, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein hegwyddorion ar gyfer polisi cyllido ac ymgynghori arnynt yn allanol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad a dadansoddiad trylwyr o'r modelau cyllido cyfredol ar gyfer addysg drydyddol er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer newid. Bydd angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru ac ystyried canlyniadau galwad y llywodraeth gyfredol am dystiolaeth.

Ym mis Hydref 2025, lansiodd Medr Gronfa Datblygu Strategol Ôl-16 er mwyn annog mwy o gydweithio yn y sector addysg drydyddol. Mae'r broses gwneud cais yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni am y mathau o brosiectau a allai fod yn bosibl yn y sector drwy rywfaint o fuddsoddi strategol, er mwyn llywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 9:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn benodol yr effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei chylch gorchwyl ar gyfer y gwerthusiad annibynnol arfaethedig o'i chynllun peilot tocynnau bws sengl am uchafswm o £1/tocynnau teithio dyddiol am uchafswm o £3 i bobl ifanc.**

Er nad yw cludiant yn ôl ac ymlaen i leoliadau addysgol o fewn cylch gwaith Medr, rydym yn ymwybodol, drwy drafodaethau rheolaidd gyda darparwyr, o raddfa'r broblem hon i ddysgwyr ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Gwnaethom godi hyn yn Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2025.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am y sector ac am ddysgwyr i lywio ei hystyriaethau, er mwyn bwydo i mewn i'r ffrwd waith ôl-16 ar deithio gan ddysgwyr.

**Argymhelliad 11:**

**Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad o:**

- **pam mae'n credu bod cymaint o anghysondeb rhwng cyfran y dysgwyr sydd eisiau ymgymryd â phrentisiaeth a chyfran y dysgwyr sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd; a**
- **y graddau y mae'r rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr (megis y cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach a chanolig) wedi cyfrannu at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y galw am brentisiaethau ymhlith pobl ifanc a nifer gwirioneddol y prentisiaethau sydd ar gael.**

Fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu ehangach â chyflogwyr a dysgwyr, mae Medr yn ceisio deall yn well beth yw'r ffactorau a'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr a chapasiti cyflogwyr, gan gynnwys cyfyngiadau o ran cyllid ac ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach a chanolig, ac mae wrthi'n adolygu ymgysylltiad â chyflogwyr a mentrau megis y rhaglen prentisiaethau a rennir mewn cydweithrediad gyda phartneriaid gan gynnwys Busnes Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ategu nodau Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol trwy sicrhau bod darpariaeth brentisiaethau'n ymatebol i anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach, gan hefyd helpu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad ar gyfer pobl ifanc a busnesau.

Wrth ddatblygu'r rhaglen brentisiaethau newydd a gaiff ei chyflwyno o fis Awst 2027 ymlaen, rydym yn archwilio i weld pa gymorth ychwanegol y bydd ei angen ar gyflogwyr er mwyn iddynt allu cynnig prentisiaethau, gan gynnwys argaeledd, hygyrchedd a phriodoldeb y wybodaeth sydd ar gael iddynt. Drwy ymgysylltu'n barhaus â chyflogwyr, gallwn ddeall anghenion cyflogwyr a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar ddarpariaeth addysg drydyddol briodol.

Rydym yn parhau i gyllido prentisiaethau a rennir, sy'n galluogi BBaChau yn arbennig i gynnig prentisiaethau am fod modd i ddysgwyr i fodloni gofynion y prentisiaethau gyda mwy nag un cyflogwr, ac rydym yn cynnal adolygiad er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ymgorffori'r model llwyddiannus hwn yn y rhaglen newydd. Mae ein rhaglen barhaus o adolygiadau fframwaith yn ystyried a yw'r llwybrau sydd ar gael yn briodol er mwyn galluogi dysgwyr i ymuno â sector cyflogaeth a chamu ymlaen ynddo.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru, yn ogystal â'r rhwydwaith darparwyr addysg drydyddol, i wella'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr ynglŷn â phrentisiaethau. Mae Medr yn cynnal rhaglen waith gyda darparwyr i atgyfnerthu llais y dysgwr, a fydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau o ran prentisiaethau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn sefydlu fforymau cyflogwyr er mwyn archwilio'r rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr – gan gynnwys heriau cyllido ac ymwybyddiaeth gyfyngedig ymhlith BBaChau. Bydd y dull cyfunol hwn yn helpu i ddadansoddi'r rhesymau dros y gwahaniaeth presennol yn gliriach ac yn llywio camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer gwella cyfraddau ymgysylltu ymhlith dysgwyr a chyfraddau cyfranogi ymhlith cyflogwyr.

Yn ehangach, mae Medr yn archwilio dulliau o sefydlu trafodaethau strategol strwythuredig gyda chyflogwyr drwy sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau, gyda'r nod o feithrin cyd-ddealltwriaeth o ffyrdd y gall y sector addysg drydyddol yng Nghymru ddiwallu anghenion o ran sgiliau yn y presennol a'r dyfodol a ffyrdd y gall Medr helpu i ddatblygu darpariaeth briodol a sicrhau ei bod ar gael.

Rydym yn cydnabod yr angen i wella cyngor ac arweiniad er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch rhwng diddordeb dysgwyr mewn prentisiaethau a'r cyfraddau cyfranogi gwirioneddol, ond mae'n bwysig cydnabod y ffaith bod dysgwyr yn ymgymryd â phrentisiaethau drwy amrywiaeth o lwybrau. Pan gaiff cyfran y dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaeth rhwng 16 a 19 oed ei hystyried, mae'r bwlch rhwng dyhead a chyfranogiad gryn dipyn yn llai.

**Argymhelliad 12:**

**Yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:**

- **pam mae’n credu bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o ddod yn NEET o gymharu â menywod ifanc;**
- **sut y mae ei gwaith i wella cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi ystyried y gwahanol heriau sy’n wynebu menywod a dynion ifanc;**
- **a yw’n credu bod angen gwneud unrhyw waith pellach i ddeall yn well pam mae rhai pobl ifanc yn dod yn NEET, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiadau mewn cyfraddau rhwng menywod a dynion ifanc yng Nghymru**

Rydym yn cydnabod bod cyfraddau cyfranogi mewn addysg drydyddol yn rhy isel a bod nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn rhy uchel o gymharu â rhanbarthau eraill yn y DU. Mae amrywiaeth gymhleth o ffactorau yn gyfrifol am y ffaith

bod lefel y bobl sy'n NEET yng Nghymru yn gyson uchel, a bydd angen amrywiaeth o ymyriadau trawslywodraethol i fynd i'r afael â nhw.

Mae annog cyfranogiad, hyrwyddo cyfle cyfartal, a dysgu gydol oes mewn addysg drydyddol yn ddyletswyddau strategol i Medr a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Yn ein Cynllun Strategol, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru, i annog mwy o ddysgwyr cyn-16 i bontio i addysg drydyddol a lleihau'r gyfran o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ynghylch cyfranogiad mewn addysg drydyddol, gan ddarganfod lefelau cyfranogi ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol fesul rhanbarth, yn seiliedig ar waith ymchwil cymdeithasol a gweithgarwch ymgysylltu ehangach Medr. Byddwn hefyd yn gosod targedau er mwyn cynyddu cyfranogiad, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, a all wynebu rhwystrau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu sefydliadol rhag dysgu. Un enghraifft o ymyriad sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r mater hwn yw'r rhaglen Prentisiaethau Iau (gweler yr ymateb i Argymhelliad 3).

Mae amod cyfle cyfartal Medr ar gyfer rheoleiddio a chyllido yn pwysleisio pwysigrwydd ehangu cyfranogiad, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol yn draddodiadol. Fel rhan o'r ffocws hwn, disgwylir i ddarparwyr ddangos camau gweithredu ystyrlon sy'n gwella mynediad, cyfraddau cadw a deilliannau i ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â mentrau fel rhaglen Ymestyn yn Ehangach, sy'n rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â dysgwyr mewn ysgolion a cholegau sy'n byw yn y ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gan helpu i sicrhau y caiff y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau strwythurol mwyaf eu helpu i symud ymlaen i astudiaethau ar lefel uwch.

**Argymhelliad 13:**

**Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliadau o ran sut y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau ôl-18. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir pwy sy'n gyfrifol am y cyngor hwnnw a rôl Estyn o ran dwyn sefydliadau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu.**

Ym mhob rhaglen astudio brif ffrwd ôl-16 a ddarperir gan awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach, ceir maes Profiad Cysylltiedig â Gwaith a maes Dysgu Cymunedol â Ffocws ar Ddiwydiant, sy'n sicrhau y gall y dysgu academaidd fod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymarfer go iawn ac effaith gymunedol.

Mae Medr yn darparu cyllid i 12 o golegau addysg bellach ar gyfer cynnal Biwroau Cyflogaeth a Menter. Mae'r cyllid yn helpu dysgwyr i bontio o fyd addysg i gyflogaeth neu hunangyflogaeth drwy ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth y bydd eu hangen arnynt i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Mae'r Biwroau yn paratoi dysgwyr i ymuno â'r farchnad lafur, gan sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r opsiynau gyrfa sydd

ar gael iddynt, ac yn hwyluso cysylltiadau â chyflogwyr, gan gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr o fewn colegau.

Er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gael cyngor ar yrfaoedd, bydd angen cydweithio agos rhwng Medr a phartneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru. Mae ein Cynllun Strategol yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru, i annog mwy o ddysgwyr cyn-16 i symud ymlaen i addysg drydyddol, a llwyddo yn yr addysg honno, a lleihau'r gyfran o bobl sy'n mynd yn NEET.

Rydym yn cydnabod y rôl arweiniol y mae Gyrfa Cymru, ysgolion ac awdurdodau lleol i gyd yn ei chyflawni o ran rhoi cyngor ac arweiniad i ddysgwyr cyn-16. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc wybodaeth glir am yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt adael addysg orfodol. Mae gwaith Medr ar lais y dysgwr yn cynnwys datblygu arolwg dysgwyr newydd, a fydd yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o safbwyntiau dysgwyr ar eu profiadau o addysg drydyddol ac i ba raddau y mae'n eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf tuag at ddysgu pellach neu gyflogaeth.

Mae Ymestyn yn Ehangach yn cyflawni rôl hanfodol o ran codi dyheadau ar gyfer addysg uwch drwy greu llwybrau cynhwysol a chefnogol i ddysgwyr na fyddent wedi ystyried prifysgol fel opsiwn o'r blaen o bosibl. Drwy ei rhaglen fentora, caiff myfyrwyr eu paru â mentoriaid hyfforddedig sy'n cynnig anogaeth, arweiniad y gellir uniaethu ag ef, a chymorth ymarferol er mwyn mynd i'r afael â dewisiadau addysgol. Mae'r dull hwn, a gaiff ei deilwra ar gyfer unigolion, yn helpu dysgwyr i fagu hyder, deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, a datblygu nodau clir ar gyfer eu dyfodol. Gyda'i gilydd, mae Ymestyn yn Ehangach a'i rhaglen fentora yn grymuso unigolion, nid yn unig i'w dychmygu eu hunain mewn addysg uwch, ond i gymryd y camau pendant sy'n angenrheidiol er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau ynghylch cwricwla lleol 16 i 18 ar gyfer Medr a fydd yn nodi’r dyletswyddau cyfreithiol o ran ffurfio cwricwla lleol 16 i 18 yng Nghymru, sy’n cynnwys ystyriaethau i gyngor ac arweiniad mewn perthynas â’r ddarpariaeth sydd ar gael ar ôl 16. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**